

CYPE(6)–08–21 – Papur i'w nodi 1

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc  
ac Addysg**

**Children, Young People  
and Education Committee**

Sally Holland  
Comisiynydd Plant Cymru

30 Tachwedd 2021

**Y cyfarfod ar 18 Tachwedd 2021**

Annwyl Sally,

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Tachwedd 2021.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw dywedasoed eich bod wedi cyflwyno papur i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a oedd yn nodi'ch pryderon ynghylch bylchau yn eich cylch gwaith statudol. A oes modd i chi roi copi o'r papur hwnnw i'r Pwyllgor cyn gynted ag y mae'n briodol gwneud hynny?

Gwnaethoch hefyd siarad yn fyr am rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) wrth wireddu'r potensial i'r trydydd sector gefnogi'r GIG i helpu pobl ifanc â'u hiechyd meddwl. A oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu at y sylwadau a wnaethoch yn ystod y cyfarfod ynghylch:

- pa mor effeithiol y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r rôl honno;
- y potensial i'r trydydd sector gefnogi'r GIG i helpu pobl ifanc â'u hiechyd meddwl; a/neu
- yr heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu wrth iddo ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc?

Soniasoch yn ystod y cyfarfod hwnnw y gallem ddisgwyl clywed gennych lawer mwy o weithiau cyn i'ch cyfnod yn eich swydd ddod i ben. Rwyf fi a fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor yn edrych ymlaen at ddarllen eich cyflwyniadau. Hoffwn achub ar y cyfle hwn, fodd bynnag, i ddiolch i chi, ar ran y Pwyllgor, am bopeth yr ydych wedi'i gyflawni yn ystod eich amser yn y swydd i wella bywydau plant a phobl ifanc. Dymunaf yn dda iawn i chi ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir,

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

